# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn 28 Mawrth 2000

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.

## Cwestiynau i'r Prif Ysgrifennydd

### Hyrwyddo Manteision Aelodaeth o'r UE (Sioeau Teithiol Rhanbarthol)

**C6 Janet Ryder:** Pa gynlluniau sydd gan y Prif Ysgrifennydd i ymateb i'r ffaith bod y Swyddfa Dramor yn annog y Cynulliad i drefnu sioeau teithiol rhanbarthol i hyrwyddo manteision bod yn aelod o'r Undeb Ewropeaidd? (OAQ4331)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Nid yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn meddu ar y pwerau cyfreithiol i lwyfannu sioe deithiol ranbarthol o'r math hwn. Byddaf yn ysgrifennu atoch i egluro pam ei bod felly. Darperir copi o'm llythyr yn Llyfrgell y Cynulliad.

### Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad (Merched mewn Swyddi Uwch)

**C7 Alison Halford:** Pa gamau a gymerwyd i gynyddu cwota'r merched mewn swyddi uwch yn y cyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad ers i'r Prif Ysgrifennydd ateb cwestiwn ynghylch y diffyg merched mewn swyddi uwch yn y cyrff hyn? (OAQ4346)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Ers gofyn y cwestiwn hwnnw dim ond tri phenodiad o gadeiryddion i gyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad a wnaethpwyd. Yr oedd un o'r rhai a benodwyd yn fenyw. Bellach mae dau gadeirydd benywaidd ar gyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad, y ddwy ohonynt wedi eu penodi ers Ionawr 1999.

Cesglir ystadegau yn chwarterol am benodiadau i gyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad. Mae'r ffigur ar gyfer benywod sydd yn dal penodiadau i gyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad yn 31 y cant o hyd, yr un ffigur ag a ddyfynnwyd ym Medi.

### Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad (Arolwg)

**C8 Jenny Randerson:** A wnaiff y Prif Ysgrifennydd roi cyfarwyddyd i gynnal arolwg o'r holl gyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad yng Nghymru? (OAQ4318)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Ers yr etholiad cyffredinol yn 1997, gwnaethpwyd newidiadau o bwys yn y map o gwangos yng Nghymru a bwriadwn barhau i archwilio'r trefniadau'n fanwl. Yn y papur ymgynghorol, 'Gwell Cymru', rhoesom arwydd o'n bwriad i adolygu pob un o'r prif gyrff a noddir gennym fel y gallwn fod yn sicr eu bod yn gweithio er y budd gorau i'r cyhoedd ac yn gwneud defnydd da o'r arian a dderbyniant. Cyn hir bydd yr Ysgrifennydd Cyllid yn cyhoeddi manylion y rhaglen adolygu a'i hamserlen.

### Polisïau i rwystro Busnesau Cymreig rhag Adleoli

**C9 William Graham:** Pa bolisïau y mae'r Prif Ysgrifennydd yn eu llunio er mwyn sicrhau nad yw busnesau Cymreig yn adleoli mewn gwledydd eraill? (OAQ4342)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Os yw Cymru i ddod yn economi modern, dynamig, mae'n holl bwysig bod busnesau yng Nghymru'n cystadlu o ran yr wybodaeth a'r medrau a ychwanegant at eu cynhyrchion a'r gwasanaethau a ddarparant, nid ar sail y gallu i'w cynhyrchu'n rhad. Mae sawl polisi'n cyfrannu'n uniongyrchol at hynny, yn enwedig Know-How Wales a CAMPUS Cymru.

**Polisi Cyflogaeth yr UE (Gwella Dulliau Cyfathrebu)**

**C10 David Lloyd:** Sut y mae'r Prif Ysgrifennydd yn bwriadu gwella'r sianeli cyfathrebu â'n cymdogion yn Ewrop er mwyn sicrhau bod Cymru'n cyfrannu profiadau a gwerthoedd i'r broses o ddatblygu polisi cyflogaeth yr UE? (OAQ4333)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Mae polisi cyflogaeth yn fater i Lywodraeth y DU, er i swyddogion y Cynulliad gael trafodaethau â swyddogion y Comisiwn wrth baratoi'r cynlluniau Amcan 1 a 3 i Gymru. Bu amrediad o gyrff yng Nghymru hefyd yn gysylltiedig â phartneriaid mewn gwledydd eraill o dan fentrau cymunedol ADAPT ac EMPLOYMENT. Bydd y Cynulliad yn cymryd rhan wrth baratoi'r rhaglen EQUAL newydd ar gyfer y cyfnod 2000-06, sydd yn rhoi pwyslais cryf ar gyfnewid profiad â phartneriaid mewn gwledydd eraill. Bydd y sianelau cyfathrebu presennol yn cael hwb sylweddol drwy agor swyddfa newydd y Cynulliad ym Mrwsel, ym Mai eleni, a drwy aelodaeth y Cynulliad o Ganolfan Ewropeaidd Cymru.

**Cyngor Prydain ac Iwerddon**

**C11 Brian Hancock:** A fydd y Prif Ysgrifennydd yn estyn gwahoddiad i Gyngor Prydain ac Iwerddon gyfarfod yng Nghaerdydd? (OAQ4329)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Estynnodd Alun Michael groeso cynnes i'r Cyngor gyfarfod yng Nghymru, a chefnogaf hynny'n llwyr. Er ei fod wedi ei atal ar hyn o bryd o dan Ddeddf Gogledd Iwerddon 2000, mae'r Cyngor wedi ei sefydlu drwy Gytundeb Belfast, fel yr holl sefydliadau.

**Cyrff a Noddir gan y Cynulliad (Adolygu Penodiadau)**

**C12 Peter Black:** Pa gynlluniau sydd gan y Prif Ysgrifennydd i adolygu'r ffordd y gwneir penodiadau i gyrff a noddir gan y Cynulliad? (OAQ4328)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Mabwysiadwyd Cod Ymarfer ar Benodiadau Cyhoeddus y Cynulliad lai na blwyddyn yn ôl ac nid oes gennyf fwriad i'w adolygu yn y dyfodol agos.

Mae'r Cod yn ymgorffori'r egwyddorion a fabwysiadwyd gan y Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus. Yr wyf yn ymwybodol bod y Comisiynydd yn adolygu rhai agweddau ar ei harweiniad cyfredol, a rhoddir ystyriaeth i gynnwys unrhyw newidiadau a ddeillia o'r adolygiad hwnnw yng Nghod y Cynulliad.

Trafodwyd pwnc penodiadau i gyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad yng Nghymru gan y Cabinet ar 13 Mawrth. Penderfynodd y Cabinet y dylid gofyn i'r Pwyllgor Cyfle Cyfartal edrych ar fater penodiadau cyhoeddus yn gyffredinol, ac yn benodol ar y modd y gellir annog mwy o bobl i ymgeisio am swyddi er mwyn cael mwy o amrywiaeth mewn penodiadau.

**Sefydlu Cysylltiadau Ffurfiol â Chyrff Seneddol mewn Gwledydd Eraill**

**C13 Richard Edwards:** A oes gan y Prif Ysgrifennydd gynlluniau i sefydlu cysylltiadau ffurfiol â chyrff seneddol mewn gwledydd eraill? (OAQ4327)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Mae'r Cynulliad eisoes yn aelod o Gymdeithas Seneddol y Gymanwlad, a chroesawaf gysylltiadau tebyg mewn mannau eraill. Nid yw'r modd y byddwn yn ymwneud fel cyfangorff â deddfwrfeydd eraill yn fater i mi'n bennaf.

**Hyrwyddo Datblygu Cynaliadwy (Gwaith Cyffredinol y Cabinet)**

**C14 Rhodri Glyn Thomas:** A wnaiff y Prif Ysgrifennydd wneud datganiad ar sut y bydd datblygu cynaliadwy yn cael ei hyrwyddo yng ngwaith cyffredinol Cabinet y Cynulliad? (OAQ4325)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Bydd datblygu cynaliadwy'n cynnig cyfleoedd i bobl Cymru a busnesau yng Nghymru na allwn fforddio eu hanwybyddu. Bydd cynllun datblygu cynaliadwy'r Cynulliad, yr ydym yn ymgynghori ar ddrafft ohono, yn datgan sut y caiff datblygu cynaliadwy ei hybu wrth arfer swyddogaethau'r Cynulliad, gan gynnwys y rhai a gyflawnir gan y Cabinet. Nid wyf am ragweld canlyniad ein hymgynghoriad, ac fe'ch sicrhaf y byddwn yn cymryd yr ymatebion o ddifrif.

Yn yr un modd â'm rhagflaenydd, disgwyliaf i holl aelodau'r Cabinet gymryd datblygu cynaliadwy i ystyriaeth wrth arfer eu swyddogaethau, hyd yn oed cyn gwneud y cynllun. Gofynnais i Christine Gwyther barhau i bleidio achos datblygu cynaliadwy oddi mewn i'r Cabinet, er mwyn sicrhau bod yr Aelodau'n gwbl gyfarwydd â'r ymatebion i'n hymgynghoriad, ac i roi cynigion diwygiedig ar gyfer cynllun y Cynulliad gerbron y Cynulliad ar ôl ystyried yr ymatebion. Ar ôl gwneud y cynllun, fe'i gweithredir mewn cydweithrediad â'n partneriaid. Bydd yr ymrwymiadau a ymgorfforir oddi mewn iddo, a'r rhai sydd yn deillio ohono wedyn, yn cael eu cynnwys yn ein prosesau cynllunio strategol a gweithredol er mwyn sicrhau hynny.

### Diogelu Swyddi (Diwydiannau Dur a Llaeth)

**C15 Janet Davies:** Pa drafodaethau y mae'r Prif Ysgrifennydd wedi eu cynnal ag Ysgrifenyddion eraill y Cynulliad ynghylch yr angen i ddiogelu swyddi yn y diwydiannau dur a llaeth? (OAQ4322)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Yr wyf yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd â'm holl gydweithwyr yn y Cabinet ynghylch materion cyfoes.

### Mentrau Bychain mewn Ardaloedd Gwledig (Effaith Rheoliadau Ewropeaidd)

**C16 David Davies:** Pa ymchwil mae'r Prif Ysgrifennydd wedi ei gomisiynu i ystyried yr effaith y mae rheoliadau Ewropeaidd yn ei chael ar fentrau bychain sydd yn gweithredu yn ardaloedd gwledig Cymru? (OAQ4344)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Ni chomisiynwyd unrhyw ymchwil benodol i'r mater hwn gan y Cynulliad. Fodd bynnag, mae'r weithdrefn gwerthuso rheoleiddiol o dan Adran 65 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 yn golygu y dylid asesu effaith debygol rheoliadau newydd ymlaen llaw, gan gynnwys y rheoliadau hynny sydd yn rhoi cyfarwyddebau'r UE ar waith.

Gall busnesau bach ddioddef yn anghymesur o fiwrocratiaeth, pa un a ydynt mewn ardal wledig neu mewn ardal drefol. Llwyr gefnogaf waith i ysgafnhau'r baich sydd arnynt, gan gynnwys gweithredu dilynol ar dasglu symleiddio amgylchedd busnes y Comisiwn Ewropeaidd, mesurau diweddar gan y Llywodraeth fel y Mesur Diwygio Rheoleiddiol a chamau ymarferol eraill fel symleiddio'r gofynion cadw cyfrifon i gwmnïau bach. Yr wyf hefyd yn awyddus i fwy o awdurdodau lleol sefydlu partneriaethau busnes lleol er mwyn helpu busnesau i ddeall a chydymffurfio â'r rheoliadau sydd yn effeithio arnynt.

### Trafodaethau ar Bolisïau Ewropeaidd (Cyfraniad Cymreig)

**C17 Elin Jones:** Sut y mae'r Prif Ysgrifennydd yn bwriadu sicrhau cyfraniad Cymreig i drafodaethau ar bolisïau Ewropeaidd? (OAQ4332)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Nodwyd yn y memorandwm o gyd-ddealltwriaeth a'r concordat ar gydlynu materion polisi Ewropeaidd a gytunwyd rhwng Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig yn Hydref 1999 yr egwyddorion a fydd yn sylfaen i'r cysylltiadau rhyngddynt. Yn benodol, mae B3.4 o'r concordat Ewropeaidd yn darparu y caiff gweinyddiaethau datganoledig gyfrannu i benderfyniadau'r DU ar faterion yr UE ar bynciau sydd oddi mewn i'w cyfrifoldeb.

## Polisi Cymdeithasol yr UE (Gwella Dulliau Cyfathrebu)

**C18 Cynog Dafis:** Sut mae’r Prif Ysgrifennydd yn bwriadu gwella ein dulliau cyfathrebu â’n cymdogion Ewropeaidd er mwyn sicrhau bod Cymru’n cyfrannu profiadau a gwerthoedd i ddatblygiad polisïau cymdeithasol yr UE? (OAQ4334)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Mae swyddogion y Cynulliad, ynghyd â phartneriaid, eisoes yn trafod rhaglen cronfeydd strwythurol newydd gyda swyddogion y Comisiwn sydd yn cynnwys mesurau er mwyn ymladd allgáu cymdeithasol. Bu amrediad o gyrff yng Nghymru yn ymwneud â phartneriaid mewn gwledydd eraill o dan fentrau cymunedol ADAPT ac EMPLOYMENT ac mae gwaith yn mynd rhagddo i gyflenwi’r gwaith hwn ar gyfer y cyfnod 2000-06 drwy’r fenter gymunedol EQUAL newydd. Bydd y sianelau cyfathrebu presennol yn cael hwb sylweddol drwy agor swyddfa newydd y Cynulliad ym Mrwsel, ym Mai eleni, a drwy aelodaeth y Cynulliad o Ganolfan Ewropeaidd Cymru.

## Helaethu Pwerau Datganoledig y Cynulliad

**C19 Geraint Davies:** Pa drafodaethau y mae’r Prif Ysgrifennydd wedi eu cael ag Ysgrifennydd Gwladol Cymru ynghylch helaethu’r pwerau sydd wedi eu datganoli i’r Cynulliad? (OAQ4324)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Yr wyf yn cael trafodaethau rheolaidd â’r Ysgrifennydd Gwladol ar ddeddfwriaeth sylfaenol newydd, sydd yn cyflwyno swyddogaethau i’r Cynulliad. Ni chefais unrhyw drafodaethau o’r fath ar fater helaethu pwerau’r Cynulliad y tu hwnt i’r rhai a ragwelir yn y setliad datganoli.

## Lansio ‘Deialog ar Ewrop’

**C20 Helen Mary Jones:** Pa gynlluniau sydd gan y Prif Ysgrifennydd i lansio’r cynllun trafod cyhoeddus ‘Deialog ar Ewrop’ a lansiwyd gan y Comisiwn Ewropeaidd y mis hwn er mwyn sicrhau bod gan bobl Cymru lais yn y broses o ddiwygio’r Undeb Ewropeaidd yn barod ar gyfer ehangu? (OAQ4330)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Nid oes gennyf fwriad i lansio ‘Deialog ar Ewrop’, oherwydd fe’i lansiwyd eisoes gan y Comisiwn Ewropeaidd ar 15 Chwefror 2000. Deallaf y bydd yn egluro sut y bydd y gynhadledd rynglywodraethol a diwygio sefydliadau’n fodd i arloesi’r ffordd ar gyfer ehangu. Gofynnwyd i aelodau o’r Comisiwn Ewropeaidd gymryd rhan yn y fenter hon mewn partneriaeth ag aelod wladwriaethau. Byddaf yn falch o ystyried cymryd rhan yn y ddeialog os gwahoddir fi i wneud hynny.

## Pwerau Datganoli (Asesu Athrawon)

**C21 Gareth Jones:** A yw’r Prif Ysgrifennydd wedi cynnal unrhyw drafodaethau yn ddiweddar â’r Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg a Chyflogaeth neu Ysgrifennydd Gwladol Cymru ynglyn â natur pwerau wedi’u datganoli sydd yn ymwneud ag asesu athrawon? (OAQ4323)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Cefais sawl trafodaeth ag Ysgrifennydd Gwladol Cymru a’r Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg a Chyflogaeth ar fater tâl athrawon. Fel yr adroddais o’r blaen, y casgliad oedd nad yw tâl ac amodau gwasanaeth athrawon yn swyddogaeth a ddatganolwyd i’r Cynulliad, a bod hyn yn cynnwys asesu i ddiben dyfarnu pwyntiau tâl.

## Cyfarfod i Drafod yr Argyfwng mewn Ardaloedd Gwledig

**C22 Ieuan Wyn Jones:** A fydd y Prif Ysgrifennydd yn bresennol yn y cyfarfod arbennig a drefnwyd gan y Prif Weinidog i drafod yr argyfwng presennol yn yr ardaloedd gwledig? (OAQ4339)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Bydd Christine Gwyther yn bresennol yng nghyfarfod y Prif Weinidog ar 30 Mawrth i gynrychioli buddiannau amaethyddiaeth a chymunedau gwledig Cymru.

**Dylanwad y Cynulliad ar Ddeddfwriaeth Sylfaenol San Steffan**

**C23 John Griffiths:** Pa strategaeth y bwriedir ei dilyn i alluogi'r Cynulliad i ddylanwadu ar ddeddfwriaeth sylfaenol yn San Steffan? (OAQ4337)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Fe'ch cyfeiriaf at yr ateb a roddais i chi ar y mater hwn (OAQ4197) yr wythnos diwethaf.

**Gweithredu Argymhellion y Comisiwn Ffiniau (Ward Alexandra)**

**C24 Lorraine Barrett:** Pa drafodaethau y mae'r Prif Ysgrifennydd wedi'u cynnal â'i gydweithwyr yn y Cabinet ynglyn â gweithredu argymhellion y Comisiwn Ffiniau'r Llywodraeth Leol mewn perthynas â Ward Alexandra ym Mhenarth, a pha ddatblygiadau a fu ar y mater hwn? (OAQ4345)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Dirprwyais y mater hwn i Peter Law, yr Ysgrifennydd Llywodraeth Leol a Thai. Yn ddiweddar cyfarwyddodd Gomisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i ailadolygu'r trefniadau etholaethol ar gyfer sawl cymuned oddi mewn i Gyngor Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg. Nid yw cymuned Penarth yn un o'r cymunedau a gynhwyswyd yn y cyfarwyddyd. Ni all y Cynulliad dderbyn argymhellion rhannol gan y Comisiwn a bydd yn disgwyl ei argymhellion ar yr holl gymunedau a adolygodd cyn penderfynu a wneir Gorchymyn i roi'r trefniadau diwygiedig ar waith. Y dyddiad cau sydd gan y Comisiwn i gwblhau'r holl adolygiadau yw 31 Mawrth 2001.

**Mesurau i fynd i'r afael ag Anfodlonrwydd â'r Cynulliad (Gogledd Cymru)**

**C25 Peter Rogers:** Pa fesurau y mae'r Prif Ysgrifennydd yn eu hargymell i fynd i'r afael â'r anfodlonrwydd trigolion gogledd Cymru â'r Cynulliad? (OAQ4340)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Bydd fy nghydweithwyr yn y Cabinet a minnau'n parhau i sicrhau ein bod yn cyflawni ein gwaith er budd pobl ym mhob rhan o Gymru.

**Newid Mewn Hinsawdd (Effaith ar Economi Cymru)**

**C26 Brian Gibbons:** Pa drafodaethau y mae'r Prif Ysgrifennydd wedi'u cynnal ag Ysgrifennydd Gwladol Cymru am ddatganiad polisi diweddaraf Llywodraeth y DU ar y newid mewn hinsawdd a'i effaith ar economi Cymru? (OAQ4341)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Yr wyf yn cyfarfod â'r Ysgrifennydd Gwladol bob wythnos i drafod amrediad o bynciau gan gynnwys materion sydd yn ymwneud â'r amgylchedd yng Nghymru. Cyhoeddwyd 'Climate Change: Draft Programme' yn ddiweddar gan Lywodraeth y DU mewn partneriaeth â'r gweinyddiaethau datganoledig. Mae'r Cynulliad wedi ategu'r ymgynghoriad hwn drwy gyhoeddi dogfen, 'Newid Hinsawdd Cymru', sydd yn canolbwyntio'n uniongyrchol ar faterion newid hinsawdd yng Nghymru. Bydd polisïau a gyflwynir yn y strategaeth a ddatblygir o'r ymgyngoriadau hyn yn arwain at ddiwydiant sydd yn fwy ynni-effeithlon ac yn helpu i wella gallu busnes yng Nghymru i gystadlu mewn marchnadoedd cartref a rhyngwladol.

**Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad (Penodiadau)**

**C27 Christine Humphreys:** Pa drafodaethau y mae'r Prif Ysgrifennydd wedi'u cynnal â'i gydweithwyr yn y Cabinet ynglyn â phenodi i gyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad yng Nghymru? (OAQ4347)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Trafodwyd pwnc penodiadau i gyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad yng Nghymru gan y Cabinet ar 13 Mawrth. Penderfynodd y Cabinet y dylid gofyn i'r Pwyllgor Cyfle Cyfartal edrych ar fater penodiadau cyhoeddus yn gyffredinol, ac yn benodol ar y modd y gellir annog mwy o bobl i ymgeisio am swyddi er mwyn cael mwy o amrywiaeth mewn penodiadau.